**Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd am 19:00 ar 16 Awst 2022 drwy Zoom**.

**Presennol: Y Cynghorwyr** Meirwen Lloyd (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Alan Pritchard, Berwyn Parry Jones, Beca Brown, Hefin Jones, Richard Robinson, Philip Roberts.

**Ymddiheuriadau:** Neb

**Aelodau o'r Cyhoedd**: Mr Rhisiart Ap Gwilym (ar gyfer eitem 1016 yn unig)

**Clerc:** Meirion Jones

**1011. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod a diolchodd y cadeirydd am bresenoldeb pawb

**1012 . Derbyn ymddiheuriadau.**

D/B

**1013. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w cofnodi fel yn briodol

**1014. Cadarnhau cofnodion cyfarfod 19 Gorffennaf 2022**

Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**1015. I dderbyn unrhyw sylwadau yn codi o'r cofnodion.**

Eitem 1002 – fod y gwaith o baratoi polisi cwynion ar y gweill
Eitem 1006 – penderfynwyd symud ymlaen ac archebu hysbysfwrdd ar gyfer y fynwent

**1016. Cyfranogiad y Cyhoedd**

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Rhisiart ap Gwilym am ei bresenoldeb ac am godi'r pwynt yma

Mae pawb yn ymwybodol am gyflymder ceir o gwmpas Llanrug, yn enwedig Ffordd yr Orsaf a Ffordd Llanberis, ac sydd yn bwnc llosg. Soniais i am hwn i'r Heddlu yn yr Eisteddfod, Tregaron, a dywedodd bod ganddyn nhw gynllun Community Speed Watch ble mae'r heddlu yn hyfforddi'r cyhoedd i ddefnyddio gynnau cyflymder ble mae'r dystiolaeth yn cael ei defnyddio gan yr Heddlu i ddanfon llythyr i'r gyrwyr i rybuddio nhw am oryrru. Bydd y dystiolaeth sy'n cael ei gasglu yn helpu'r Heddlu i benderfynu pryd a ble i osod ei faniau

diogelwch. Yr unig beth sydd angen i ni neud yw creu grŵp o 6, neu mwy, o wirfoddolwyr i weithio mewn parau i fesur y cyflymder. Y cam nesaf yw cofrestri ond anffodus dydi'r linc ddim yn gymwys Heddlu Gogledd Cymru felly dwi wedi anfon e-bost atyn nhw i ofyn am gyngor. Ydi hwn wedi cael ei ystyrio o laen?

https://gosafe.org/contact-us/community-concern

https://www.northwales.police.uk/advice/advice-and-information/wsi/watch-schemes-initiatives/speedwatch/community-speedwatch/

***Arwydd 20 mya wrth siop Spar***

Dydi'r gyrwyr sydd yn paratoi ei hunan i dorri'r cyflymder y byd ar hyd Ffordd Llanberis ddim yn gallu gweld yr arwydd 20 mya yn glir achos y tyfiant tu blaen iddo. Er, os maen nhw'n mynd i deithio dros 60 mya mewn 30 limit dwi ddim yn meddwl bydd o'n neud gwahaniaeth.

**Penderfynwyd:** Adroddwyd fod hyn wedi codi ben yn y gorffennol a penderfyniad y cyngor cymuned bryd hynny oedd i beidio ymgymryd a'r cynllun 'Community Speed Watch'. Teimlad y cyngor oedd mai nid mater i'r cyngor cymuned ydi hyn ond i gymdeithas yn gyffredinol os ydynt yn teimlo fod angen cynllun o'r fath yn Llanrug.

O ran materion traffig ger y Spar, mae hyn yn rhan o'r cynllun ble mae'r cyngor cymuned mewn trafodaethau a Cyngor Gwynedd, fel yr Awdurdod Priffyrdd

Diolchwyd i Mr Rhisiart ap Gwilym ddwyn y materion hyn at sylw'r cyngor ac am ei gyfranogiad i'r cyfarfod yma.

**1017. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones aelod dros Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd.**

Dim adroddiad ar gael – llawer ar eu gwyliau

**1018. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Beca Brown, aelod dros Llanrug ar Gyngor Gwynedd**

Dim adroddiad ar gael – llawer ar eu gwyliau

**1019. Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'. https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search**

a) **Rhif y Cais:** C22/0422/23/AC
**Math o Gais:** Diddymu /Amrywio Amod(au)
**Bwriad:** Amrywio amod 2 ar ganiatâd rhif C10A/0087/23/LL (adeiladu 4 tŷ teras ac 1 tŷ ar wahân) ar gyfer codi 2 dy pâr a 3 tŷ teras.

**Ymgeisydd:** Richard Ross (Eladon Ltd)
**Asiant:** John Pritchard (Pensaeriaeth John Pritchard)
**Cyfeiriad:** 1, Maes Gerddi, Cwm Y Glo, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4DE
**Cyfeirnod Grid:** 255057.84, 362852.73
**Ward:** Llanrug
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynnwyd:** Gwrthwynebu'r cais ar sail y sylwadau sydd eisoes wedi cyflwyno a teimlad y cyngor cymuned ydi ei fod yn or-ddatblygiad o'r safle a byddai yn creu mwy o broblemau gyda mwy o geir

b) **Rhif y Cais:** C22/0520/23/DT
**Math o Gais:** Cais Llawn
**Bwriad:** Trosi adeilad allanol i fusnes salon trin cwn.
**Ymgeisydd:** Miss Eirian Pritchard
**Cyfeiriad:** 4 Sŵn Yr Efail, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4FG
**Cyfeirnod Grid:** 253092.16, 363369.56
**Ward:** Llanrug
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynnwyd:** Cefnogi'r cais

c) **Rhif y Cais:** C22/0630/23/LL
**Math o Gais:** Cais Llawn
**Bwriad:** Cais ar gyfer estyniad newydd ynghyd â newidiadau mewnol, canopïau newydd, drysau a ffenestri newydd, gosod polyn CCTV 5m o uchder ar iard yr ysgol a gwaith i'r ardal chwarae.
**Ymgeisydd:** Geraint Vaughan Jones (Tai ac Eiddo - Cyngor Gwynedd)
**Asiant:** Hannah James (Frame Four Limited)
**Cyfeiriad:** Cyngor Gwynedd, Ysgol Gynradd Llanrug, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4AL
**Cyfeirnod Grid:** 253517.83, 363366.61
**Ward:** Llanrug
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynnwyd:** Cefnogi'r cais

d) **Rhif y Cais:** C22/0361/23/DT
**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ
**Bwriad:** Dymchwel estyniad unllawr ac adeiladu estyniad deulawr.
Demolition of single storey extension and construction of 2 storey extension
**Ymgeisydd:** Mr and Mrs Davies
**Asiant:** Mr Marcus Liptrot
**Cyfeiriad:** Madryn House Ffordd Yr Orsaf, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4AG
**Cyfeirnod Grid:** 253551.07, 363514.81

**Ward:** Llanrug
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynnwyd:** Cefnogi'r cais

e) **Rhif y Cais:** C22/0643/23/DT
**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ
**Bwriad:** Estyniad deulawr ar ochr y tŷ ac estyniad un llawr yng nghefn y tŷ gyda phorth newydd i'r blaen.
**Ymgeisydd:** Carl Griffiths
**Cyfeiriad:** 23 Nant Y Glyn, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4AH
**Cyfeirnod Grid:** 253700.97, 363471.69
**Ward:** Llanrug
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynnwyd:** Teimlad y cyngor oedd and oedd gwahaniaeth rhwng y cynlluniau a gyflwynwyd yn wreiddiol am gyngor a'r cais a gyflwynwyd

1020. **Cau Allan y cyhoedd a'r wasg - fod y cyngor yn penderfynu atal y cyhoedd o'r cyfarfod oherwydd trafodaethau ar faterion personol**

Mae Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960 Adran 1 (2) yn nodi

Caiff corff, trwy benderfyniad, wahardd y cyhoedd o gyfarfod (p'un ai yn ystod yr achos cyfan neu ran ohono) pryd bynnag y byddai cyhoeddusrwydd yn niweidiol i fudd y cyhoedd oherwydd natur gyfrinachol y busnes i gael ei drafod neu am resymau arbennig eraill a nodwyd yn y penderfyniad ac sy'n deillio o natur y busnes hwnnw neu'r achos; a phan fydd penderfyniad o'r fath yn cael ei basio, ni fydd y Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyfarfod bod yn agored i'r cyhoedd yn ystod achos y mae'r penderfyniad yn berthnasol iddo.

**1021. Llenwi seddi gwag ar y cyngor (manylion wedi gylchredeg)**

Penderfynwyd: Cysylltu a'r ddwy aelod ni fuodd yn llwyddiannus i'w cyfethol y tro diwethaf i holi os ydynt yn parhau a diddordeb. Nodwyd fod dwy o'r ymgeiswyr wedi datgan diddordeb wrth aelodau ond nad oedd un ddim, felly dim ond cysylltu a'r un honno.

Daeth y cyfarfod i ben am 20:40

Arwyddwyd

Cadeirydd: Dyddiad: 27 o Fedi 2022